

## CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN



### PLANHIGION GWARCHODEDIG, PLANHIGION Y CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL A PHLANHIGION ADRAN 42




Cyfeiriwch at [www.bsbi.org.uk](http://www.bsbi.org.uk) i gael gwybodaeth fanylach a disgrifiadau o'r rhywogaethau





(Hawlfraint R.D.Pryce a K.A.Pryce yw'r holl ffotograffau.)




#### YR AMCANION CYFFREDINOL





- Adnabod safleoedd newydd i'w harolygu yn y sir.
- Annog diddordeb mewn planhigion gan wirfoddolwyr.
- Defnyddio rhywogaethau allweddol yn ganolbwynt ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd/ysgolion.
- Codi ymwybyddiaeth ynghylch y rhywogaethau hyn a'r materion sy'n effeithio arnynt.




Y RHYWOGAETH	FFOTOGRAFF	BLE/MATERION	Y CAMAU A GYMERWYD/ SY'N OFYNNOL
<b>Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop</b>			
<i>Liparis loeselii</i> (Tegeirian y Fign Galchog)		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y tro diwethaf y gwelwyd y rhywogaeth yn Sir Gaerfyrddin oedd ar Dwyni Lacharn yn 2002 ac ar Dwyni Tywyn ym 1971. Erbyn hyn mae <i>Liparis</i> wedi diflannu o bob un o'i safleoedd yn Ne Cymru heblaw am Cynffig.</li> <li>• Mae colli llac twyni addas yn peri i'r rhywogaeth brinhau oherwydd newidiadau o ran olynu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru byllau bas newydd ar safle Twyni Lacharn ym mis Ionawr/Chwefror 2005 ac mae'r cynefin wedi datblygu yn rhai o'r rhain felly maent bellach yn addas i'r <i>Liparis</i> ffynnu yno ond ni welwyd dim planhigion yno hyd yn hyn.</li> <li>• Crëwyd rhagor o byllau bas yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i'r cyfle i wneud hynny godi. Y gobaith yw y bydd y rhain hefyd yn datblygu'n gynefin addas maes o law.</li> <li>• Bwriedir creu rhagor o byllau bas ar safle Twyni Lacharn a dau ar safle Twyni Tywyn.</li> <li>• Mae'r trafodaethau'n parhau ynghylch a ddylid hau had Cynffig ar safleoedd yn Sir Gaerfyrddin fel y gwnaed yn ddiweddar ar safle Twyni Whiteford ym Mro Gŵyr.</li> </ul>
<b>Rhywogaethau Atodlen 8</b>			
<i>Gentianella uliginosa</i> (Crwynllys Cymreig)		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tan y 1980au, gwyddys bod y rhywogaeth yn bodoli ar safleoedd Twyni Lacharn a Thwyni Tywyn ond yn y blynyddoedd diwethaf dim ond ar yr hen lanfa hofrenyddion ar safle Twyni Tywyn y gwelwyd hi.</li> <li>• Yn 2012 gwelwyd sawl planhigyn ger targedau'r Awyrlu hefyd lle nas gwelwyd o'r blaen ond ni welwyd dim un planhigyn <i>G. uliginosa</i> na <i>G. amarella</i> (Crwynllys yr Hydref) yn 2013.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arolwg blynyddol ar safle Twyni Tywyn.</li> <li>• Dylai cloddio pyllau bas newydd ar gyfer y <i>Liparis</i> fod yn fuddiol i deulu'r crwynllys hefyd.</li> </ul>



<p><i>Silene gallica</i> (Gludlys Amryliw)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y tro diwethaf i'r rhywogaeth hon gael ei gweld ar ei hunig safle yn Sir Gaerfyrddin, sef Harbwr Porth Tywyn oedd yn 2011.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheoli waliau'r harbwr er mwyn dod â'r is-haen i'r golwg.</li> </ul>
<p><i>Dianthus armeria</i> (Penigan y Porfeydd)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n ymddangos bod yr unig boblogaeth a oedd yn bodoli a hynny ym Mryndias, Pinged yn prinhau o dipyn i beth oherwydd bod gordyfu'n digwydd yn araf bach yn y cynefin a bod y glaswelltir yn drech ac yn tyfu dros yr is-haen a oedd unwaith yn fwy agored.</li> <li>• Canfuwyd ail boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn 2007 a hynny yn Llanelli. Ymddangosodd y flwyddyn ganlynol ond nis gwelwyd yn 2009 nac ers hynny.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwaith rheoli i darfu ar dir ar fferm Bryndias – cydgysylltu â'r perchenogion.</li> <li>• Ym mis Medi 2013, cafodd ychydig bach o hadau eu casglu o dan drwydded a'u rhoi i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru er mwyn eu lluosogi oddi ar y safle.</li> <li>• Nodi safleoedd ailgyflwyno posibl.</li> </ul>
<p><b>Rhywogaethau Adran 42</b></p>			
<p><i>Dactylorhiza viridis</i> (Tegeirian y Broga)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y tro olaf y gwelwyd y rhywogaeth yn y sir oedd ar safle Twyni Lacharn tua 2002.</li> </ul>	
<p><i>Dianthus armeria</i> (Penigan y Porfeydd)</p>	<p>Gweler uchod</p>		

<p><i>Euphrasia rivularis</i> (Effros y Nant a elwir hefyd yn Effros yr Wyddfa)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae poblogaethau bach i'w cael mewn llaciau tra-fasig ar yr hen dywodfaen coch ar y Mynydd Du i'r dwyrain o'r llethrau sydd i'r gogledd o Fannau Sir Gâr.</li> <li>• Mwy na thebyg nad yw dan fygythiad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r tu allan i ardal Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) Sir Gaerfyrddin</li> </ul>
<p><i>Euphrasia rostkoviana</i> <i>is-r. montana</i> (Mountain Eyebright, – Torfagl Mynyddog)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Eithaf eang ac mae'r rhywogaeth i'w gweld yn aml yn lleol mewn glaswelltir asidig sydd heb ei wella yn neuparth dwyreiniol y sir.</li> <li>• Nid yw dan fygythiad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim angen gweithredu</li> </ul>
<p><i>Gentianella uliginosa</i> (Crwynllys Cymreig)</p>	<p>Gweler uchod</p>		
<p><i>Gymnadenia densiflora</i> (Tegeirian Pêr y Gors)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Poblogaethau bach ar safleoedd Twyni Lacharn a Thwyni Tywyn, yn ogystal ag yn y glaswelltir tra-fasig mewndirol sydd heb ei wella.</li> <li>• Mwy na thebyg nad yw dan fygythiad ar y twynder arfordirol lle'i ceir ond mae colli glaswelltiroedd mewndirol sy'n gynefin i'r rhywogaeth yn fygythiad difrifol mwy na thebyg.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ceisio cadw'r safleoedd mewndirol drwy gydweithio â pherchenogion tir.</li> </ul>
<p><i>Gymnadenia borealis</i> (Tegeirian Pêr Gogleddol)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Efallai mai'r rhywogaeth hon, y rhoddwyd iddi statws rhywogaeth lawn yn ddiweddar yn unig, yw rhai o boblogaethau mewndirol y <i>Gymnadenia</i>. Yn y gorffennol, roedd y tair is-rywogaeth (yr oedd <i>G. borealis</i> yn un ohonynt) yn llunio'r rhywogaeth gydgasglol ac nid oedd sylwedyddion maes yn gwahaniaethu rhyngddynt.</li> <li>• Mwy na thebyg fod colli glaswelltir mewndirol sy'n gynefinoedd i'r rhywogaeth yn fygythiad difrifol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen rhagor o gofnodi.</li> <li>• Ceisio cadw safleoedd mewndirol drwy gydweithio â pherchenogion tir.</li> </ul>

<p><i>Hammarbya paludosa</i> (Tegeirian Bach y Gors)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim ond un boblogaeth fach y gwyddys amdani yn Sir Gaerfyrddin, mewn llac yng Nghwm Twrch. Ymddengys bod y boblogaeth yn dal ei thir.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r tu allan i ardal Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) Sir Gaerfyrddin</li> </ul>
<p><i>Hordeum marinum</i> (Haidd y Morfa)</p>		<p>Ni chredir bod y rhywogaeth yn bod mwyach yn Sir Gaerfyrddin – ym marn RDP mae'r holl gofnodion blaenorol yn cyfeirio at <i>H. secalinum</i>.</p>	
<p><i>Hypopitys monotropa</i> is-r. <i>hypophegea</i> (Cytwf)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Poblogaethau bach ym Mharc Arfordirol y Mileniwm rhwng Pwll a Phorth Tywyn ac yng Nghoedwig Pen-bre sy'n ffynnu a phrinhau'n naturiol dros gyfnod o 5–10 mlynedd neu lai ac ymddengys bod y rhywogaeth wedi ymsefydlu ar safleoedd newydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun rheoli wedi'i lunio gan barcmon o Barc Arfordirol y Mileniwm gydag argymhellion rheoli.</li> <li>• Monitro blynyddol</li> </ul>
<p><i>Liparis loeselii</i> (Tegeirian y Fign Galchog)</p>	<p>Gweler uchod</p>		
<p><i>Lycopodium clavatum</i> (Cnwp-fwsogl Corn Carw)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar Fynydd Malláen y ceir y rhywogaeth yn bennaf er y daethpwyd o hyd i un planhigyn bach ar y Mynydd Du yn 2012.</li> <li>• Ymddengys bod ei ffawd yn dibynnu ar faint o bori defaid sydd yno gan fod planhigion yn cael eu dadwreiddio'n rhwydd wrth i ddefaid sathru arnynt. Ond ymddengys eu bod yn ffynnu'n well ar Malláen gan fod nifer y defaid yn gostwng yn ôl pob sôn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhagor o gofnodi.</li> <li>• Sicrhau bod pori defaid yn digwydd ar raddfa briodol.</li> </ul>

<p><i>Matthiola sinuata</i> (Murwyll Arfor)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darganfuwyd hon yn rhywogaeth newydd i Sir Gaerfyrddin ar Drwyn Ginst yn 2006 ac ar hyd blaen y twyni ar Draeth Pentywyn yn 2007.</li> <li>• Ers hynny mae'r rhywogaeth wedi'i gweld (yn 2009) gan IKM ym mhentref Pentywyn ond ni chafodd ei chofnodi wedi hynny, er y gallai planhigion achlysurol ailymddangos o had y planhigion cyntaf hyn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhagor o gofnodi.</li> </ul>
<p><i>Melittis melissophyllum</i> (Y Wenynog)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Un safle ar glawdd ar ochr y ffordd yng nghwm Cych.</li> <li>• Mae rheoli argloddiau ochrau ffyrdd mewn modd amhriodol neu leihad yn y canopi coed yn rhoi'r rhywogaeth mewn sefyllfa fregus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Safle wedi'i gofnodi yn Warchodfa Natur Ochr Ffordd.</li> <li>• Mae angen monitro'r safle'n rheolaidd.</li> <li>• Siarad â'r Gwasanaethau Stryd eto ynghylch rheoli.</li> </ul>
<p><i>Mentha pulegium</i> (Brymllys)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cofnodwyd poblogaethau brodorol ar 'dir pori gwyddau' ym Mrynaman yn y 1940au ond mae'r holl gofnodion diweddar yn cofnodi planhigion dyfod o'r math talsyth anffrodorol nad oes iddo'r un statws uchel o ran cadwraeth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oes angen gweithredu.</li> </ul>
<p><i>Oenanthe fistulosa</i> (Cegiden Bibellaidd)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nifer o boblogaethau bach ar forfeydd e.e. morfeydd Lacharn, Ffrwd a phen isaf dyffryn Tywi islaw Caerfyrddin.</li> <li>• Mwy na thebyg nad yw'r rhywogaeth yn wynebu llawer o fygythiad.</li> <li>• Nid yw'r boblogaeth fewndirol a oedd ar safle Ynys Uchaf Porth-y-rhyd wedi'i gweld er 1986.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal rhagor o arolygon.</li> </ul>

<p><i>Platanthera bifolia</i> (Tegeirian Llydanwyrdd Bach)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r prif boblogaethau ar dwyni Whitehill, Lacharn a Chae Blaen Dyffryn, ill dwy â channoedd o blanhigion.</li> <li>• Mwy na thebyg fod y poblogaethau'n gwneud yn iawn er bod y niferoedd yn codi a gostwng yn naturiol o flwyddyn i flwyddyn.</li> <li>• Mae tua 16 o boblogaethau llai ond ni welwyd y rhan fwyaf ohonynt er y 1980au neu'r 1990au cynnar.</li> <li>• Ymddengys bod y rhywogaeth wedi prinhau'n fawr ond mae taer angen ymdrech fonitro bendant i ganfod pa boblogaethau sy'n bodoli.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal rhagor o arolygon/fonitro.</li> <li>• Ceisio cadw'r safleoedd sy'n bodoli, drwy gydweithio â pherchenogion tir.</li> </ul>
<p><i>Ranunculus tripartitus</i> (Crafanc-y-frân Dridarn)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae pob un o'r hen gofnodion a ategir gan ddeunydd gwarantu yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi'i hailbennu yn rhywogaeth arall. Bellach nid oes dim cofnodion o'r rhywogaeth yn Sir Gaerfyrddin wedi'u cadarnhau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal rhagor o arolygon.</li> </ul>
<p><i>Salsola kali is-r. kali</i> (Helys Pigog)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwelir y rhywogaeth yn aml ar hyd traethlinau a blaenau twyni a hynny yn holl systemau twyni'r sir.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oes angen gweithredu.</li> </ul>
<p><i>Scleranthus annuus</i> (Dinodd Unflwydd)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Prin y gwelir y planhigyn mewn is-haenau graeanog, lle na chafodd y tir lonydd. Daw'r cofnodion diweddaraf o Fferm Telpyn (2007) a gerllaw Myddfai (1996). Mwy na thebyg nad yw poblogaethau eraill yn dod i'r amlwg.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal rhagor o arolygon.</li> </ul>
<p><i>Silene gallica</i> (Gludlys Amryliw)</p>	<p>Gweler uchod</p>		

<p><i>Trollius europaeus</i> (Cronnell)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Heblaw am y nifer cymharol fawr o blanhigion sy'n tyfu ar lannau caregog yr afon ger Ceunant Sawdde, ymddengys mai dwy boblogaeth yn unig sy'n bodoli mwyach (yng ngogledd-ddwyrain y sir) a phoblogaethau o un neu ddau blanhigyn yw'r rhain.</li> <li>• Mae'r gostyngiad enbyd yn niferoedd y <i>Trollius</i> i'w briodoli'n bennaf i welliannau amaethyddol i'r porfeydd lle'r arferent dyfu.</li> <li>• Ar hyn o bryd mae planhigion Sawdde dan fygythiad oherwydd bod coed llawrgeirios yn bwrw eu cysgod drostynt ac mae angen i'r gwaith cadwraeth ganolbwytio ar docio'r bygythiad hwn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymchwilio i boblogaeth Sawdde – cyllid grant a'r perchennog tir i reoli'r coed llawrgeirios.</li> </ul>
<p><i>Vicia orobus</i> (Ffacbysen Chwerw)</p>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Er bod sawl poblogaeth yn dal i fodoli yn Sir Gaerfyrddin, mae niferoedd y rhywogaeth hon wedi gostwng yn enbyd yn ystod y 30 mlynedd diwethaf neu oddeutu hynny.</li> <li>• O blith y cyfanswm o 25 o gofnodion tetrad (pedwar sgwâr) yn y sir, dim ond pump sy'n cyfeirio at blanhigion a welwyd er 2000.</li> <li>• Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion i'w cael yng ngogledd a gogledd-ddwyrain y sir, ac yn ogystal â'r gweirgloddiau a reolir yn draddodiadol ac sydd ar yr ucheldir sef safleoedd arferol y rhywogaeth, mae nifer o blanhigion wedi'u cofnodi ar gloddiau glaswelltog, asidig ar ochrau ffordd. Gallai tocio'r cloddiau hyn yn flynyddol ymdebygu i reoli gweirgloddiau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal rhagor o arolygon/fonitro.</li> <li>• Sicrhau bod y safleoedd lle mae'n tyfu ac sy'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael eu rheoli'n briodol.</li> <li>• Ceisio cadw'r safleoedd sy'n bodoli, drwy gydweithio â pherchenogion tir.</li> </ul>